Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymateb Ymgynghoriad

**Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:**
**Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llwyddiannus**

## Cyflwyniad

1. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad pwyllgor hwn. Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi ein bod yn credu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth – yr ydym yn gwbl ymrwymedig i'w gweithredu'n llwyddiannus. Roeddem yn llwyr ddisgwyl y byddai darn mor drawsnewidiol o ddeddfwriaeth – gyda'r bwriad o newid y diwylliant a'r ffordd y mae pob corff cyhoeddus yn gweithio – yn cymryd amser i'w weithredu'n llawn ond mae arwyddion ei fod yn dechrau ennill momentwm yng Nghymru.

2. O'n profiad o weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill, rydym yn gwybod bod newid diwylliant yn anodd. Rydym yn gweithio mewn byd hynod gymhleth, cyflym ac ansicr, ac felly gall fod yn anodd cynllunio ar sail tymor hwy – hynny yw, cynllunio gan gadw cenedlaethau'r dyfodol mewn cof – pan fo anghenion cenedlaethau'r presennol mor bresennol ac amlwg. O'r profiad hwnnw, rydym wedi nodi'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn rhai o'r rhwystrau allweddol i'w gweithredu.

## Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.

3. Mae yna beth tystiolaeth o gamddehongli'r nodau a'r bwriad polisi y dylai'r holl nodau fod yn berthnasol i'r holl swyddogaethau. Er enghraifft, rydym wedi profi enghreifftiau o gamddehongli'r nod **Cymru Gydnerth** drwy ein sgyrsiau â chyrff cyhoeddus eraill ac wrth fod yn bresennol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel aelodau. Enghraifft o hyn yw'r canfyddiad o'r term 'cydnerthedd', sy'n golygu cymunedau cydnerth yn unig, nid amgylchedd naturiol cydnerth a all barhau i gefnogi anghenion cymunedau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

4. Amlygir y mater hwn yn adroddiad pum mlynedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i lunio fel argymhelliad allweddol. Rydym yn awyddus i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o nod Cymru Gydnerth. Bydd ein gwaith Gweledigaeth 2050 yn allweddol i hyn, fel y bydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol nesaf yn 2021, a fydd yn cynnwys rhai negeseuon cryf ynghylch y camau cymdeithasol sydd eu hangen i gyflawni Cymru gydnerth.

5. Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd bioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) – ac mae llawer wedi ymateb yn dda i'r ddyletswydd honno. Ond mae angen ystyried hon ochr yn ochr â'r diffiniad ehangach o'r nod Cydnerthedd, fel y gallwn gyflawni ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol – yn hytrach na thrin y ddyletswydd fel gofyniad unigol.

6. Canlyniad camddehongli'r nodau yw nad yw cyflawniad wedi'i alinio'n llawn – ac nad felly yw cynnydd tuag at Gymru gynaliadwy fel y nodir yn y Ddeddf. Mae'r gofyniad ar y pwynt pum mlynedd hwn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus adnewyddu eu hasesiadau a chynlluniau llesiant lleol, ac i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion llesiant, yn sbardun defnyddiol ar gyfer adolygiad yn erbyn geiriad y nodau, i wirio'r ddealltwriaeth o bob nod. Rydym wedi ymrwymo i wneud hyn yn Cyfoeth Naturiol Cymru wrth inni ddatblygu ein cynllun corfforaethol newydd a'i amcanion llesiant. Bydd yn cynnwys buddsoddi mwy o amser ar draws ein cyfarwyddiaethau ar ailystyried yr hyn y mae pob un o'r nodau llesiant yn ei olygu i ni. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i wneud hyn, yn arbennig o ran cefnogi dealltwriaeth o amgylch y nod Cymru Gydnerth.

7. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhagweld y bydd Datganiadau Ardal (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020) yn helpu i gefnogi cyrff cyhoeddus i ddeall eu rôl ehangach mewn perthynas â nod Cymru Gydnerth a'r cyfraniad y mae stociau iach o adnoddau naturiol yn ei wneud i'r nodau eraill. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adnewyddu canllawiau ar gyfer asesiadau llesiant lleol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y broses yn ymgorffori Datganiadau Ardal a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sydd ar ddod mewn modd priodol.

**Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y cawsant eu defnyddio.**

8. Rydym yn "cynllunio" dros y tymor hir – fel y gwelir yn ein cynllun corfforaethol a'n cydweledigaeth 2050 arfaethedig ar gyfer yr amgylchedd naturiol – ond gall setliad y gyllideb flynyddol effeithio o hyd ar ein gallu i gyflawni'r cynllun tymor hir hwnnw yn ôl yr angen.

9. Mae'r rhybudd byr a geir ar gyfer setliadau ariannol a gosod cyllidebau blwyddyn yn effeithio ar allu cyrff cyhoeddus i gynllunio a meddwl ar gyfer y tymor hir. Gall hyn arwain at wneud penderfyniadau tymor byr - er enghraifft, i wneud unrhyw arbedion gofynnol - ac ofn arloesedd, methiant a risg (ofn rhoi cynnig ar rywbeth newydd).

10. Rydym yn cydnabod bod hyn yn broblem i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gennym setliad cyllideb cymorth grant blwyddyn ac rydym wedi gweld gwir doriadau blynyddol yng nghyllidebau cymorth grant a chyfalaf ar gyfer cyfnod cyfredol y cynllun corfforaethol. Mae hyn, ynghyd â newidiadau mewn pensiynau, yswiriant gwladol ac ati, yn golygu bod ein cynllunio cyllideb ariannol ar gylchred flynyddol. Gosodwyd cynsail gyda'r cyllidebau mynegiannol dwy flynedd ar gyfer y celfyddydau

a chwaraeon, a'n dewis fyddai i setliadau tymor hwy gael eu halinio i amseriad ein cynllun corfforaethol.

11. Er bod hyn yn anochel yn cyflwyno rhai heriau i gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswydd i wneud cynllunio tymor hir, dylid cydnabod hefyd bod mwyafrif helaeth yr arian yn gymharol sefydlog ac y gellid cynllunio dros y tymor hir ar y sail honno, pe bai cyrff cenedlaethol wirioneddol yn croesawu'r Ddeddf fel rhan o'u busnes craidd.

12. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses o newid ein prosesau cynllunio corfforaethol a busnes, gan gynnwys sut rydym yn cynllunio ac yn dyrannu adnoddau. Gwneir hyn bellach trwy broses o gynllunio 'lle' a 'gwasanaeth' – rydym yn gwneud cynnydd tuag at ddyrannu adnoddau staff a chyllideb yn dilyn cytundeb ar flaenoriaethau rhwng Penaethiaid Busnes, Gwasanaeth a Lle. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried anghenion lleol, gan gynnwys ein rôl ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru.

13. Disgwylir i gyrff cyhoeddus gyfuno cyllidebau â'u partneriaid ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cydweithredu'n effeithiol. Gan mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r unig gorff cyhoeddus sy'n rhan o bob un o'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae gennym gyfle allweddol i arwain y ffordd ar hyn. Fodd bynnag, mae heriau mawr o hyd o ran galluogi ein systemau ariannol i wneud hynny. Yn 2018/19, gwnaethom ddatblygu polisi, gweithdrefn a strategaeth grantiau newydd gyda'r bwriad o'n galluogi i ddefnyddio ein mecanweithiau cyllid grant i gefnogi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd a nodir yn ein cynlluniau corfforaethol a busnes, cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Datganiadau Ardal.

14. Gwnaethom nodi mecanwaith grant ein "cyllid strategol a ddyrannwyd" fel un ffordd y byddwn yn cefnogi cyfuno ein hadnodd ag aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei hun yn endid cyfreithiol ar gyfer dal cyllidebau – mae angen i'r cyllidebau hyn gael eu dal gan sefydliad sy'n "lletya" a gall hyn herio cydweithio, gan roi pwysau gweinyddol ychwanegol ar y sefydliad sy'n lletya. Gellid adolygu cyfansoddiad y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â hyn.

15. Yn gysylltiedig â'r problemau ariannol a chaffael hyn yw'r her ganlynol, sef er bod cynnydd wedi cael ei wneud i gyd-lunio cynlluniau llesiant, nid yw rhai o'r blaenoriaethau a benderfynwyd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn flaenoriaeth i bob sefydliad. Lle mae hyn yn digwydd, mae'n dod yn anodd iawn i'r sefydliadau eraill hyn gymryd rhan lawn – ac nid yw hyn yn arwain at y newid a ragwelir o dan y Ddeddf.

16. Er enghraifft, rydym yn gwybod, er mwyn cynyddu ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, bod ffocws ar yr agweddau cymdeithasol yn allweddol i ysgogi newid i'r gweithgareddau bob dydd sy'n gyrru'r pwysau ar yr hinsawdd a natur. Yn

hytrach na mynd i'r afael â phroblemau fesul sector trwy reoleiddio, mae angen edrych yn fwy sylfaenol ar ailgynllunio'r systemau sy'n creu'r problemau hyn. Mae hynny'n golygu edrych ar y ffordd yr ydym yn byw yng Nghymru a sbarduno newid diwylliannol i sefydlu cysylltiad gwell rhwng bodau dynol a'r amgylchedd yn gyflym. Bydd hyn yn gofyn am barodrwydd a gallu i ddod ag amrywiaeth eang o weithredwyr at ei gilydd, gan gynnwys grwpiau'r sector preifat a gwirfoddol, neu bydd yn parhau i fod yn anodd edrych drwy lens systemau a phrosesau ehangach.

**Cymorth a ddarperir i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

17. Rydym bob amser wedi croesawu'r cymorth a'r her a ddarperir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Un enghraifft o'r fath fu'r gyfres o adroddiadau at wraidd materion ar lefel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi cael cymorth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd ein rhan yn adroddiad at wraidd mater Cwm Taf ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, er enghraifft, yn brofiad gwych ac fe wnaeth helpu'r bartneriaeth i gael dealltwriaeth gliriach o'r materion cymhleth, gan ddangos lle mae gan randdeiliaid ehangach na'r arfer rôl gyfrannol i'w chwarae.

18. Teimlwn fod swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r cydbwysedd cywir o her ac anogaeth. Fodd bynnag, byddem yn annog y comisiynydd i fod yn gliriach ynghylch cadernid ac arwyddocâd y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi ei chanfyddiadau. Rydym yn deall bod llawer o'r syniadau hyn yn cael eu cymathu o'r amrywiaeth o sgyrsiau a sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd – sy'n adnodd ansoddol pwysig – yn ogystal ag adolygiadau llenyddiaeth. Wrth ddadansoddi a chyflwyno'r data hyn, mae'n bwysig cydnabod ffynonellau, ac unrhyw dybiannau sydd efallai wedi cael eu gwneud. Mae dulliau sefydledig ar gyfer deall patrymau mewn data ansoddol y gellid eu defnyddio'n well yn ein barn ni. Mae angen datblygu'r syniadau hyn hefyd yng nghyd-destun a gwybodaeth y rhwystrau a heriau cyfreithiol i'w gweithredu.

19. Rydym yn deall bod dull y comisiynydd i newid ymddygiadol wedi bod trwy annog camau hawdd a bach. Rydym bellach yn ystyried bod angen newid trawsnewidiol sylweddol – yn enwedig wrth wynebu her ddeuol yr argyfyngau hinsawdd a natur. Tan yn fwy diweddar, mae graddfa'r newid wedi cael ei bychanu gennym ni i gyd oherwydd yr angen canfyddedig i beidio â dychryn pobl.

20. Yn aml, mae adroddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn hir a gallant fod yn heriol i'w darllen. Byddem yn cefnogi gwaith swyddfa'r comisiynydd dros y pum mlynedd nesaf i ddarparu cefnogaeth fwy ymarferol, wedi'i thargedu i gyrff cyhoeddus i helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau i weithredu. Gallai hyn fod ar ffurf mwy o ymarferion o fath "gorchwyl a gorffen", er enghraifft – gan weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a sefydliadau ariannol i ailgynllunio rhannau o'r gwasanaeth cyhoeddus sy'n gofyn am foderneiddio, paratoi at y newid yn yr hinsawdd, ac adeiladu'r economi adfywiol y mae arnom ei hangen yng Nghymru. Ein cyngor, yn unol â'n Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sydd ar ddod, fyddai canolbwyntio ar drawsnewid cymdeithasol ar draws y systemau ynni, bwyd a

symudedd, yn ogystal ag alinio prosesau cynllunio corfforaethol a chyllidebu ar draws cyrff cyhoeddus i gefnogi datblygu a chyflawni canlyniadau a rennir yn well.

**Rôl arwain Llywodraeth Cymru.**

21. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arwain bwysig i'w chwarae ar draws pob adran i ddangos sut maen nhw'n integreiddio eu huchelgeisiau polisi ac yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar draws popeth maen nhw'n ei wneud. Nid ydym eto'n gweld mabwysiadu 'Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy' fel cysyniad polisi trosfwaol, sy'n ymgorffori'r ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws yr holl adrannau, ac sy'n arwain diben craidd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae angen mwy o arwain ar y cyd – i helpu integreiddio ar draws timau polisi.

**22.** Mae craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn faes lle gall rhagor o gymorth neu hyfforddiant fod yn fanteisiol. Rydym wedi bod yn rhan o rai prosesau craffu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yn cwestiynu a oes digon o ddealltwriaeth o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hyn o beth. Rydym hefyd yn cwestiynu a oes digon o gynrychiolaeth/gwybodaeth amgylcheddol i herio'n llawn ar draws gofynion y Ddeddf – er enghraifft, fel y nodir uchod o ran bwriad y nod Cymru Gydnerth. Dylai'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gael eu cynrychioli a'u pwysoli'n briodol gan y pwyllgorau craffu i roi her deg. Byddem yn fodlon gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar unrhyw hyfforddiant neu arweiniad yn hyn o beth.

**Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**

23. Mae COVID-19 a chyfyngiadau symud cysylltiedig wedi bod yn ddinistriol i ffyniant iechyd a'r economi ledled Cymru ac wedi gwneud gweithio ar y cyd yn heriol. Er nad ydym eisiau lleihau'r effaith hon, mae’r sefyllfa hefyd yn cael ei hystyried fel gwir gyfle i wella pethau – trwy, er enghraifft, yr asesiadau effaith gymunedol a gynhaliwyd trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r rôl gynyddol y mae mannau gwyrdd a natur wedi'i chwarae wrth gefnogi iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r dystiolaeth a'r syniadau a gyflwynwyd i'r Tasglu Adferiad Gwyrdd diweddar yn adlewyrchu hyn. Rydym hefyd yn deall y bu newid yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi gallu ymgysylltu â chymunedau wrth ymateb i'r argyfwng hwn. Dylid adeiladu ar y pethau cadarnhaol hyn wrth inni ddechrau 2021.

24. Bydd Brexit yn rhoi gwahanol fathau o bwysau ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig – wrth inni symud i ffwrdd o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae angen i ni barhau i groesawu'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ein bod yn addasu ac yn cefnogi newid tymor hir.

**Sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol**

25. Credwn fod tri maes allweddol i'w parhau i helpu i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus:

26. **Cefnogi newid diwylliant parhaus** fel ymdrech tymor hir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi bod drwy adolygiad sylfaenol o'n strwythur sefydliadol yn unol â'n diben craidd, sydd wedi'n helpu i ystyried a fframio ein gwaith o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er ei bod wedi bod yn heriol i Cyfoeth Naturiol Cymru reoli newid sefydliadol sylweddol, rydym bellach yn ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni ein diben newydd yn sylfaenol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (a ddyluniwyd i gyfrannu'n allweddol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Mae hyn wedi arwain at newid cadarnhaol o ran gweithredu a hunaniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

27. Efallai na fyddai cyrff cyhoeddus eraill wedi cael y fantais o’r ddeddfwriaeth a’u sefydlodd yn cael ei hadolygu neu ei hadnewyddu yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Efallai y bydd angen hyn er mwyn sicrhau y ceir y newid diwylliant sydd ei angen. Mae cyfle hefyd i gynllunio corfforaethol ac ariannol ar draws cyrff cyhoeddus gael ei alinio'n well i gefnogi datblygu a chyflawni canlyniadau a rennir.

28. **Sgiliau ar gyfer y Dyfodol** – Mae angen mwy o waith cydweithredol i ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnom yng Nghymru i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi buddsoddi'n fewnol yn ein cwrs achredu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sy'n cynnwys archwiliad sgiliau a chynllun gweithredu ar gyfer staff unigol. Gofynnir i staff dynnu sylw at y sgiliau y maen nhw'n teimlo sy'n bwysig i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy / Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sgorio'u hunain yn erbyn y rhain. Yna dilynir hyn gyda chynllun gweithredu yn eu Cynlluniau Datblygu Personol.

29. **Parhau i geisio cael cyd-fanteison trwy ddarparu a rheoli perfformiad** – Bydd yn bwysig parhau i sicrhau bod unrhyw wasanaeth yn cyflawni'r ystod ehangaf o gyd-fanteision posibl – nid i wasanaethu'r gofynion hynny a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig. Mae hyn yn debygol o achosi cyfnod anhrefnus o her gyfreithiol wrth i ni weithio trwy'r galw i'r gwasanaethau hyn fynd y tu hwnt i'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud yn gyfreithiol. Yn ymarferol, mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bopeth a wnawn gael ei fesur o ran lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, ac mae angen symud tuag at fframwaith canlyniadau mwy integredig ar gyfer yr holl adroddiadau. Bydd craffu manylach ar wneud penderfyniadau yn erbyn y fframwaith hwn yn helpu i arwain at newid.

Tachwedd 2020